

Cofnodion Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN**  
a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo Zoom nos Lun 27 o Fedi 2021 am 7.00 pm.

**YN BRESENNOL:** Cynghorwyr Heather Williams (Maer), Menna Jones (Dirprwy Faer)  
Cynghorwyr Stephen Beach, Jim Bryan, Gavin Harris, Ken Hawkins,  
Ethan Jones, Jabez Oakes, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Mike  
van der Eijk and Ifan Wyn.  
Cynghorwyr Sir Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts and Emrys  
Wynne.  
Keith Ivens – CNC ar gyfer eitem 3 yn unig, Rhingyll Rich Evans –  
Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer eitem 4, Siân Clark – Clerc y Dref a  
Kate Marcus – Rheolwr Yr Hen Lys a Dirprwy Clerc y Dref

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Rachel Lewington, Christine Ellis ac Ian  
Lewney

**2. DATGAN BUDDIANNAU**

Datganodd y Cynghorydd Gavin Harris fuddiant personol ac ariannol yn eitem 20, fel  
perchennog sefydliad lletygarwch, a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.

**3. PARTNERIAETH LLIFOGYDD ARFAETHEDIG RHUTHUN**

Trafododd y Cynghorwyr gynnig gan Gyfoeth Naturiol Cymru i ffurfio Partneriaeth  
Llifogydd Rhuthun. Roedd y wybodaeth a drafodwyd yn cynnwys cylch gorchwyl ac  
aelodaeth y bartneriaeth arfaethedig. Dywedodd Keith Ivens o Dîm Risg Llifogydd a  
Rheoli Dŵr Cyfoeth Naturiol Cymru mai diben Partneriaeth Llifogydd oedd cryfhau a  
chreu gwytnwch, cydlynu a chyfathrebu â'r aelodau, sy'n cynnwys Cyfoeth Naturiol  
Cymru, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Tref Rhuthun a chynrychiolwyr o'r gymuned.  
Rhannwyd enghreifftiau o Grwpiau Partneriaeth Llifogydd blaenorol a phresennol fel  
Llanelwy, Llangefni a Bangor-is-y-Coed. Cadarnhaodd Keith Ivens y byddai Cyfoeth  
Naturiol Cymru a Chyngor Sir Ddinbych yn cefnogi Partneriaeth Llifogydd unigol yn  
Rhuthun pe bai un yn cael ei sefydlu. Dywedwyd fod gan Glasdir grŵp llifogydd  
cymunedol lleol gweithgar ar hyn o bryd. Gobeithiwyd y byddai cynrychiolwyr o  
Glasdir, ac ardaloedd eraill o'r dref a effeithiwyd, yn dod yn aelodau o'r Bartneriaeth  
Llifogydd unigol arfaethedig ar gyfer Rhuthun.

Mynegodd yr Aelodau farn gref bod angen agwedd holistig gan yr holl gyrff statudol  
tuag at y materion yn ymwneud â llifogydd er mwyn rheoli a lliniaru achosion o  
llifogydd, rhai ohonynt o ganlyniad i ddraeniau wedi tagu. Byddai cyfranogiad trigolion  
lleol yn allweddol i lwyddiant unrhyw bartneriaeth llifogydd, a dywedwyd y byddai  
Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynorthwyo i annog cyfranogiad o'r fath.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru am gyhoeddi cyngor polisi  
cynllunio newydd yn fuan ar ffurf Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15: Datblygu,  
llifogydd ac erydu arfordirol.

Penderfynwyd y byddai sefydlu Partneriaeth Llifogydd Rhuthun, yn cynnwys  
mewnbwn ymarferol a strategol gan y cyrff statudol, yn fanteisiol i'r dref. Byddai'r  
manyion terfynol o ran materion aelodaeth a gweinyddiaeth yn cael eu cytuno ar  
wahân. Penderfynwyd hefyd y byddai cronfeydd y Cyngor Tref (y swm i'w benderfynu)  
yn cael eu dyrannu o fewn y gyllideb fel cronfa wrth gefn 'rheoli llifogydd'.

Tynnwyd sylw'r Cynghorwyr Sir a oedd yn bresennol at bryderon presennol trigolion  
am y draeniau sydd wedi tagu ar Heol Clwyd.

**PENDERFYNWYD:**

*(i) Cymeradwyo sefydlu Grŵp Partneriaeth Llifogydd Rhuthun*

**4. PLISMONA CYMUNEDOL**

Croesawyd y Rhingyll Rich Evans i'r cyfarfod; roedd ei adroddiad wed cael ei ddsbarthu i'r Aelodau ymlaen llaw.

Rhoddodd yr Aelodau sylwadau ffafriol ar y camau a gymerwyd yn ddiweddar mewn cysylltiad â gyrru gwrth-gymdeithasol yng nghanol y dref a meddianu car, a gofynnwyd i'r heddlu barhau i ganolbwyntio ar yrru gwrth-gymdeithasol yn y dref ac oddi amgylch (yn cynnwys maes parcio Heol y Parc). Codwyd y mater o argaeledd a defnydd cyffuriau. Dywedodd y Rhingyll Evans wrth y Cyngor Tref fod yr heddlu'n trefnu gwaith rhagweithiol ar gyfer canol mis Hydref, yn ogystal â chymryd rhan mewn patrolau gweledol iawn. Byddai'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar y defnydd hamdden o gyffuriau a mentrau cyffuriau. Byddai'r tîm plismona lleol yn croesawu unrhyw wybodaeth am faterion o'r fath.

Cadarnhawyd y byddai eitem ar Blismona Cymunedol ar agenda cyfarfod mis Rhagfyr 2021 y Cyngor Tref fel rhan o'r diweddariad rheolaidd a ddarperir bob tri mis.

**PENDERFYNWYD:** *cydnabod gwaith y tîm plismona cymunedol lleol, a'i nodi.*

**5. ADRODDIAD Y MAER**

Yn ogystal â'r gweithgareddau a nodwyd yn adroddiad y Maer, dywedodd y Cynghorydd Heather Williams wrth yr Aelodau y byddai adroddiad yn cael ei drafod yn y Pwyllgor Amwynderau nesaf ar Brosiect Plannu Coed y Maer.

**PENDERFYNWYD:** *derbyn cynnwys Adroddiad y Maer.*

**6. ADRODDIADAU'R AELODAU**

**PENDERFYNWYD:** *derbyn Adroddiadau'r Aelodau fel y'u dosbarthwyd yn flaenorol.*

**7. ADRODDIAD CYNGHORWYR SIR RHUTHUN**

Yn ogystal â'r adroddiad a ddsbarthwyd, rhoddwyd gwybod i Aelodau'r Cyngor Tref am y pwyntiau a ganlyn:

Dywedodd y Cynghorydd Emrys Wynne fod Grŵp Aelodau'r Ardal wedi cytuno y byddai'r 'llwyfannau' a osodwyd dros dro ar Sgwâr Sant Pedr yn cael eu symud oddi yno a'u storio dros dro.

Dywedodd y Cynghorydd Bobby Feeley fod Grŵp Aelodau'r Ardal wedi cael cyflwyniad ar greu coetir arfaethedig yng Nghae Ddôl. Yn amodol ar ymgynghoriad, byddai 1700 o goed yn cael eu plannu ar 1.5 acer, ynghyd â blodau gwyllt.

Dywedodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts fod (i) Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi hysbysiad gorfodi ar y Blazers. (ii) y cynigion ar gyfer Cronfa Codi'r Gwastad, a oedd yn cynnwys Sgwâr Sant Pedr, yn mynd rhagddynt. (iii) effaith Covid-19 ar ysgolion Sir Ddinbych yn sylweddol gyda'r achosion o ddisgyblion a staff sy'n profi'n gadarnhaol yn uchel iawn, a llawer yn aros am ganlyniadau profion PCR. Roedd y sefyllfa bresennol yn heriol dros ben.

**PENDERFYNWYD:** *derbyn Adroddiadau'r Aelodau.*

**8. COFNODION Y CYFARFOD ARFEROL BLAENOROL**

**PENDERFYNWYD:** *derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2021 fel cofnod cywir.*

## 9. MATERION YN CODI

Nid oedd materion yn codi.

## 10. PWYLLGOR PWERAU BRYD

**PENDERFYNWYD:** *derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Awst 2021 fel cofnod cywir.*

## 11. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Dywedodd y Cynghorydd Menna Jones wrth yr Aelodau y byddai'r cyfarfod rhwng cynghorwyr Rhuthun a Llanfair DC, ynghyd â chynrychiolwyr o Gyngor Sir Ddinbych a oedd i'w gynnal ar 24 Medi, yn cael ei aildrefnu ar gyfer mis Hydref. Roedd y Pwyllgor Amwyndrau wedi argymhell cymeradwyo amryw o eitemau i'w hystyried yn ddiweddarach ar agenda'r Cyngor Tref.

**PENDERFYNWYD:** *derbyn cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf a 13 Medi 2021.*

## 12. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Rhoddodd y Cynghorydd Heather Williams wybod i'r Aelodau y cynhaliwyd cyfarfod drwy Zoom rhwng y pwyllgor Cynllunio a Datblygu a'r Pwyllgor Amwynderau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i ystyried y gwaith arfaethedig i greu arglawdd yng Nghae Ddôl. Roedd y gwaith i fod i gychwyn ddechrau mis Hydref am gyfnod o bythefnos. Roedd oedi gyda'r prosiect o ganlyniad i sicrhau ymgynghoriad priodol a chynnal gwaith modelu i wneud yn siŵr na fyddai'r gwaith yn cael effaith niweidiol ar eraill. Ni chafwyd dim gwrthwynebiad gan y Pwyllgor i unrhyw geisiadau cynllunio a gyflwynwyd. Mewn ymateb i sylw a gyflwynwyd gan y Pwyllgor am blannu coeden o'r un rhywogaeth yn lle un a dynnwyd i lawr yn 1 Cae Castan, cafwyd cyngor gan CSDd mai coeden gollen ffrengig gyffredin fyddai'n cael ei phlannu yn lle'r hen un oherwydd tueddiad coed castan i gael clefydau.

**PENDERFYNWYD:** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Medi 2021.*

## 13. COFNODION PWYLLGOR RHEOLI'R HEN LYS

Dywedodd y Cynghorydd Gavin Harris wrth yr Aelodau; y byddai adolygiad o eitemau y gellir eu symud yn yr Hen Lys yn cael ei gynnal ynghyd ag adolygiad o asesiadau risg a gynhaliwyd ac; y byddai cais yn cael ei wneud i Ymddiriedolaeth Fferm Wynt Clocaenog i ariannu arwyddion digidol ac arwyddion eraill. Wrth ymateb i ymholiad am y plac a oedd yn coffáu Ymgyrch Owain Glyndwr ym 1400, a ddadorchuddiwyd yn 2000, dywedodd y Cynghorydd Harris fod y plac wedi'i storio'n ddiogel yn yr Hen Lys ond, oherwydd effaith y tywydd, roedd angen gwneud rhywfaint o waith adnewyddu arno. Byddai'r plac yn cael ei ailosod yn ganolog ar banel allanol yr Hen Lys.

**PENDERFYNWYD:** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Medi 2021.*

## 14. COFNODION YR IS-BWYLLGOR ADNODDAU DYNOL

**PENDERFYNWYD:** *derbyn cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf a 16 Medi.*

## 15. CRONFA SEILWAITH DIGWYDDIADAU CYNGOR SIR DDINBYCH

Trafododd yr Aelodau gais drafft i Gronfa Seilwaith Digwyddiadau Cyngor Sir Ddinbych a fyddai'n cael ei gyflwyno gan y Cyngor Tref. Roedd y cais i wella'r cyflenwad trydan mewn dau leoliad ar Sgwâr Sant Pedr (Cloc y Dref a'r Hen Lys) i'w ddefnyddio ar gyfer digwyddiadau cymunedol am gost o £1,070 a TAW.

Arweiniodd trafodaeth gyda chwmnïau bysiau yn hwyr yr wythnos flaenorol, at ail gais arfaethedig am dri sgwter symudedd a fyddai'n costio tua £7,000. Roedd y cais hwn yn ei gamau cychwynol ac roedd angen rhagor o wybodaeth. Cytunwyd y byddai'r cais yn cael ei ddosbarthu i'r Aelodau am eu sylwadau.

**PENDERFYNWYD:** *(i) Cymeradwyo'r cais drafft i'w gyflwyno i'r gronfa seilwaith*

*digwyddiadau i wella'r cyflenwad trydan mewn dau leoliad ar Sgwâr Sant Pedr; a (ii) dosbarthu'r ail gais arfaethedig am dri sgwter symudedd ar gyfer sylwadau.*

#### **16. FELODROM ARFAETHEDIG RHUTHUN**

Trafododd yr Aelodau adroddiad, a ddosbarthwyd yn flaenorol, a oedd yn rhoi datganiad sefyllfa bresennol ar Felodrom arfaethedig Rhuthun. Dywedodd y Cynghorydd Gavin Harris bod disgwyl diweddariad gyda rhagor o fanylion, i'w drafod yng nghyfarfod mis Hydref y Cyngor Tref.

**PENDERFYNWYD:** *nodi cynnwys yr adroddiad ar Felodrom arfaethedig Rhuthun.*

#### **17. Y GOFEB RYFEL**

Trafododd yr Aelodau adroddiad manwl, a ddosbarthwyd yn flaenorol, ar Gofeb Ryfel Rhuthun a'r camau nesaf arfaethedig, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Amwynderau.

**PENDERFYNWYD:** *fod Cyngor Tref Rhuthun:*

*(i) yn ariannu rhan 1 y prosiect yn ei gyfanrwydd o ran talu am ffioedd y pensaer ar gyfer y prosiect sef £3,920; ac*

*(ii) ariannu costau cyfreithiol y cais i'r Gofrestrfa Tir sef £800.00 a TAW.*

#### **18. MAN GOLLWNG TEITHWYR ODDI AR GOETSYS A CHEFN YR HEN LYS**

Trafododd yr Aelodau adroddiad a oedd yn amlinellu, mewn egwyddor, gynigion i addasu'r defnydd o'r ardal y tu ôl i'r Hen Lys i alluogi gwell mynediad ar bafinoedd a chreu parthau gwefru ar gyfer cerbydau trydan. Yn ogystal, roedd y cynnig hefyd yn gofyn am greu man dynodedig ar gyfer gollwng teithwyr oddi ar goetsys o flaen yr Hen Lys. Rhoddodd y Cynghorydd Gavin Harris wybod i'r Aelodau y gellid symud ymlaen â'r cynllun yn annibynnol gyda chronfeydd sydd ar gael o dan bennawd Tir y Cyhoedd os byddai angen, er y byddai'r gwaith yn cael ei ystyried i'w gynnwys yn y cais ehangach i Gronfa Codi'r Gwastad. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y ddau gynllun ynghlwm i'r adroddiad wedi cael eu labelu'n anghywir.

**PENDERFYNWYD:** *symud ymlaen fel sy'n briodol â'r cynigion a amlinellwyd ar gyfer yr ardal y tu ôl i'r Hen Lys a chreu man dynodedig ar gyfer gollwng teithwyr oddi ar goetsys o flaen yr adeilad (fel rhan o Gronfa Codi'r Gwastad neu'n annibynnol drwy gyllideb Tir y Cyhoedd).*

#### **19. ASESIAD O LETY SIPSIWN A THEITHWYR 2021 - CONWY A SIR DDINBYCH**

Trafododd yr Aelodau ymateb drafft i'r Aseiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr. Wrth drafod, gofynnodd yr Aelodau am eglurhad a chadarnhad o sefyllfa bresennol Cyngor Sir Ddinbych o ran darpariaeth y sir ar gyfer sipsiwn a theithwyr. Dywedodd y cynghorwyr sir fod darpariaethau priodol yn ofyniad y Cynllun Datblygu Lleol ac, er nad oedd safle dynodedig yn y Sir, roeddent yn y broses o geisio dod o hyd i safleodd addas. Roedd consensws bod angen safle yn y Sir. Pan ddaeth y sipsiwn i Heol y Parc yn ddiweddar, gweithredodd Cyngor Sir Ddinbych yn gyflym i ddarparu toiledau. Penderfynwyd derbyn y drafft, fel y'i dosbarthwyd, gyda sylw ychwanegol yn amlinellu'r angen am safle parhaol yn Sir Ddinbych ac yn cydnabod bod y Cyngor Sir yn cymryd camau i ddod o hyd i safle addas.

**PENDERFYNWYD:** *cyflwyno'r ymateb drafft, fel y'i dosbarthwyd, gyda'r pwynt ychwanegol a godwyd ynglŷn â'r angen am safle parhaol yn Sir Ddinbych.*

#### **20. CYNNIG I WNEUD CAIS I'R HEN LYS FOD YN 'FANGRE CYMERADWY AR GYFER 'SEREMONIAU PRIODAS A PHARTNERIAETHAU SIFIL'**

Trafododd yr Aelodau adroddiad yn amlinellu cynnig i'r Hen Lys wneud cais i fod yn fangre cymeradwy ar gyfer seremonïau priodas a phartneriaethau sifil. Wrth drafod, gwnaeth yr Aelodau ymholiadau ynghylch y costau amlinellol, lle i barcio, i ba raddau y gwnaed gwaith ymchwil i'r farchnad a dadansoddi data ynghyd â dysgu o arfer da mewn lleoliadau eraill tebyg. Mynegwyd pryder hefyd am y gost gychwynnol o £1,000. Cadarnhaodd Rheolwr yr Hen Lys sail y costau cymharol, ac amlinellodd y byddai

trefniadau parcio fel y maent ar hyn o bryd yn y dref ac ailadroddodd fod ymgynghoriad wedi'i gynnal gyda busnesau lleol sydd â chysylltiadau â phriodasau yn y dref. Gellid dysgu o arfer da mewn lleoliadau eraill tebyg ar yr un pryd â datblygu'r lleoliad fel mangre cymeradwy.

Gwnaeth yr Aelodau sylwadau cadarnhaol ar fanteision posibl cynnal seremonïau mor arbennig yng nghanol y dref gan gynnwys y sylw ar y cyfryngau cymdeithasol, y gefnogaeth i fusnesau lleol a mangreuedd trwyddedig ac ati. O ystyried effaith Covid-19 a bod cymaint o seremonïau wedi'u gohirio yn ystod y 18 mis blaenorol, cwestiynwyd yr angen i ddefnyddio dadansoddiad o ddata hanesyddol cymharol. Dywedwyd fod yr Hen Lys yn fusnes, datganiad yr oedd y Cynghorydd Ethan Jones am iddo gael ei roi ar gofnod ei fod yn anghytuno'n llwyr ag ef.

**PENDERFYNWYD:** gwneud cais i'r Hen Lys fod yn 'Fangre Cymeradwy ar gyfer Seremonïau Priodas a Phartneriaethau Sifil'.

## 21. GWEITHGOR DYFODOL RHUTHUN

Rhodddwyd y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar am y gweithgareddau a gynhaliwyd mewn cysylltiad â Dyfodol Rhuthun a'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer Cronfa Codi'r Gwastad. Byddai digwyddiad yn cael ei gynnal yn enw Dyfodol Rhuthun am bythefnos ddiwedd mis Hydref/dechrau mis Tachwedd. Gofynnwyd am aelodau ychwanegol i'r gweithgor a gwirfoddolodd y Cynghorwyr Anne Roberts, Mike Van Der Eik a Jim Bryan i ymuno â'r Cynghorwyr Heather Williams, Menna Jones a Gavin Harris.

**PENDERFYNWYD:** fod aelodaeth y Gweithgor yn cynnwys y Cynghorwyr Heather Williams, Menna Jones, Gavin Harris, Anne Roberts, Mike Van Der Eik a Jim Bryan.

## 22. DYDDIADAU CYFARFODYDD 2022

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo'r dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd y flwyddyn ganlynol a nodi y cynhelir Cinio Elusennol y Maer nos Sadwrn 12 Mawrth 2022.

## 23. DATGANIADAU ARIANNOL A DIWEDDARIAD TAW

**PENDERFYNWYD:**

(i) Derbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol ar gyfer y cyfnodau sy'n dod i ben ar 31 Gorffennaf a 31 Awst 2021

(ii) Nodi fod Cyngor Tref Rhuthun bellach wedi'i gofrestru ar gyfer Treth ar Werth.

## 24. CYFRIFON I'W TALU

Cymeradwywyd yr eitemau a ganlyn i'w talu:

|    |                           |  |   |           |
|----|---------------------------|--|---|-----------|
| OB | Microsoft                 | Ffi misol Microsoft 365  | * |           |
|    |                           | 18/08/2021 – 17/09/2021  |   | £18.96    |
|    |                           | 19/08/2021 – 18/09/2021  |   | £18.96    |
| OB | Jackson Transport Service | Gwasanaethau symud (o Neuadd y Dref i'r Hen Lys)                                       | * | £264.00   |
| OB | J & C Brimble             | Dyfrio planhigion CTRh w/c 04/08/2021 - w/c 05/09/2021                                 |   | £818.80   |
| OB | Cyngor Sir Ddinbych       | Symud basgedi blodau   | * | £240.00   |
| OB | CIC Llanfwrog             | Gwasanaethau torri glaswellt – Medi 2021   |   | £369.84   |
| OB | Cyng Menna E Jones        | Ad-daliad am gost prynu tlws newydd ar gyfer arddangosfa blodau mangreuedd trwyddedig  | * | £154.99   |
| OB | Cyng Menna E Jones        | Ad-daliad am gost ysgythru tlws arddangosfa blodau busnesau a chofeb i'w rhoi ar fainc |   | £40.00    |
| OB | Marian Rees               | Gwasanaeth cyfieithau ar gyfer 7 a 21 Mehefin 2021                                     | * | £90.00    |
| OB | Planhigion Glyndŵr        | Plannu a chyflenwi 66 o botiau blodau  | * | £2,772.00 |

|    |                |  |   |         |
|----|----------------|--|---|---------|
| OB | Hill & Roberts | Gwasanaethau cyfrifo a chyflogres ar gyfer mis Medi 2021 | * | £240.00 |
|----|----------------|--|---|---------|

(Mae'r eitemau sydd wedi'u nodi gyda \* uchod yn cynnwys TAW y gellir ei adfer)

O gyfrif Hen Lys Cyngor Tref Rhuthun:

|    |                   |  |   |           |
|----|-------------------|--|---|-----------|
| OB | BT                | 18/07/2021 – 18/08/2021                      | * | £67.19    |
|    |                   | 18/08/2021 – 18/09/2021                      |   | £67.19    |
| OB | R.I.G Joinery Ltd | Pum desg symudol                             | * | £2,916.00 |
| OB | MKM               | Clo Yale                                     | * | £41.34    |
| OB | MKM               | Bordiau Sundeala a gwasanaeth torri          | * | £62.39    |
| OB | Cyng Gavin Harris | Ad-daliad am Wobrau Ymddiriedolaeth Ddinesig | * | £300.00   |

(Mae'r eitemau sydd wedi'u nodi gyda \* uchod yn cynnwys TAW y gellir ei adfer)

## 25. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

**PENDERFYNWYD:** *cadarnhau y cynhelir y cyfarfod arferol nesaf nos Lun 18 Hydref 2021 am 7pm.*